# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **25 GORFFENNAF 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **MESUR LLYWODRAETH LEOL A CHYFETHOL AELODAU LLEYG** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYMRYD CAMAU PELLACH I WEITHREDU O FLAEN Y DDEDDF** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** |
| **GWEITHREDIAD :** | **ARGYMELL NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD A CHYCHWYN Y DREFN PENODI** |

Yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor ym mis Mawrth, mae'r adroddiad hwn yn sôn am y newidiadau sy'n angenrheidiol i weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn arbennig felly, i gychwyn y broses o gyfethol aelodau lleyg. Mae'r disgwyliad yn parhau mai o Mai 2012 fydd y Mesur yn weithredol, ond mae'r adroddiad yn seiliedig ar anelu i weithredu o flaen hynny.

## 1. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL ANGENRHEIDIOL

Yn Atodiad 1, amlinellir y newidiadau sy'n angenrheidiol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn i gydymffurfio gyda'r Mesur, ynghyd â mân-newidiadau eraill. Bydd angen cyflwyno hwn i'r Bwrdd Comisiynwyr iddynt wneud argymhellion i'r Cyngor ac unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar newidiadau, bydd angen caniatâd y Gweinidog.

Mae un newid sylweddol o bosib yn ymwneud â chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon, dyletswydd a fydd, fe ragwelir, yn trosglwyddo i'r Cyngor llawn. Rai blynyddoedd yn ôl, dim ond y Cyngor llawn fedrai gymeradwyo'r cyfrifon ond wrth i'r dyddiadau cau statudol i'w cymeradwyo fynd yn dynnach, cyflwynwyd rhywfaint o hyblygrwydd yn y Ddeddfwriaeth i ganiatáu dirprwyo'r swyddogaeth i'r Pwyllgor Archwilio. Dyma a wnaed yn yr Awdurdod hwn; yn ôl y Cyfansoddiad presennol, y Pwyllgor Archwilio sy'n gwneud hyn. Pery'r hyblygrwydd statudol, ond yn y canllawiau drafft rhagarweiniol, ymddengys mai'r drefn sy'n cael ei ffafrio yn awr yw i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo. Yn y drafft yn Atodiad 1, rhagwelir mai'r Pwyllgor Archwilio fydd yn sgriwtineiddio'r Datganiad Cyfrifon ac yna'n ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Bydd hyn yn cyflwyno cam newydd yn y broses gymeradwyo a bydd angen alinio calendr y Cyngor gyda'r amserlen cyfrifon h.y. bydd angen trefnu'r cyfarfod chwarterol mor agos ag sy'n bosibl cyn 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn. Oherwydd nad yw hyn yn ymarferol ar gyfer 2011, argymhellir y dylai'r newid hwn ddod i rym yn 2012.

Hefyd, rmae angen penderfynu pwy yn union fydd yn penodi'r aelodau cyfetholedig. Yn ôl y Mesur, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod yn ei gyfanrwydd ond gellir dirprwyo'r awdurdod. Y ffordd symlaf o wneud hyn fyddai i'r Cynghorwyr hynny sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ei hun benodi ac mae'r drafft yn 3.4.8.3.2 yn adlewyrchu hyn. Oherwydd nad yw hyn yn glir yn y Mesur, byddai angen i'r Cyngor llawn gadarnhau hyn yn benodol cyn penodi.

Yn y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor, roedd yr aelodau o’r farn na ddylid rhoddi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyfetholedig (ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth arferol). Y Cyngor llawn, fel rhan o’r cynllun lwfansau, sydd â chyfrifoldeb ffurfiol am hyn, yr un modd a chydag aelodau cyfetholedig eraill, felly, bydd angen cyfeirio’r argymhelliad yma i’r Cyngor hefyd

## 2. Y DREFN AR GYFER PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG

Yn ei gyfarfod diwethaf, cytunodd y Pwyllgor y dylid cael dau aelod cyfetholedig ac anelu am gydbwysedd o sgiliau – y naill gyda chefndir cyfrifeg, y llall gyda chefndir rheoli risg / archwilio / rheoleiddiol.

Yn ddelfrydol, rydym angen cyfnod gwasanaeth sy’n gorgyffwrdd - h.y. dau aelod, y ddau i wasanaethu am bedair blynedd ond bod dwy flynedd o fwlch rhwng penodi bob un. Ar adeg penodi am y tro cyntaf felly, dylid penodi un am bedair blynedd a’r llall am ddwy flynedd. Mae a fydd hynny’n bosibl ai peidio yn dibynnu ar yr ymgeiswyr a fydd ar gael i’w penodi ac efallai y byddai’n well gadael hyn hyd oni fydd y ceisiadau wedi dod i law. Hynny yw, gellir dweud yn yr hysbyseb y gall y penodiad fod am ddwy neu bedair blynedd, gwahodd ymgeiswyr i ddweud pa gyfnod fyddai orau ganddynt ond gadael y penderfyniad terfynol i’r broses benodi ei hun.

Bwriedir dilyn proses debyg i’r broses a ddefnyddir ar gyfer recriwtio aelodau i’r Pwyllgor Safonau. Bydd y disgrifiad swydd a’r fanyleb bersonol yn cael eu llunio a bydd raid eu cymeradwyo gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Hysbysebir ym mis Medi unwaith y bydd y Cyngor llawn wedi cymeradwyo’r drefn.

Oherwydd mai proses recriwtio ar gyfer swyddogaeth arbenigol ac annibynnol yw hon, ystyrir y dylai’r Pwyllgor, yn ychwanegol at swyddogion yr Awdurdod, gael asesydd allanol i gynghori ar y broses.

Y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd fydd yn penodi ond efallai y byddai’n ddoeth cael rhestr fer os oes nifer fawr o ymgeiswyr gan ddibynnu ar ba mor agos y maent yn cwrdd â’r fanyleb bersonol. Gellid dirprwyo hyn i’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd gyda chyngor yr asesydd allanol.

## 3. ARGYMHELLION

**(i)** cyflwyno’r newidiadau arfaethedig i’r Cyfansoddiad i’r Bwrdd Comisiynwyr, ac yna i’r Cyngor Sir ac yna i’r Gweinidog ar yr amod bod y trefniadau dirprwyo cyfredol dan 3.4.8.1.1 (xi) yn parhau’n weithredol trwy gydol 2011;

**(ii)** argymell i’r Cyngor ei fod yn dirprwyo’r gwaith o benodi aelodau lleyg i’r aelodau hynny o’r Pwyllgor Archwilio sy’n gynghorwyr;

**(iii)** cychwyn y broses recriwtio yn y modd a amlinellir yn rhan 2 uchod, gan roddi i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl i weithredu ar y materion hyn rhwng cyfarfodydd o’r Pwyllgor.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** **14 GORFFENNAF 2011**

### 3.4.8 Pwyllgor Archwilio

### 3.4.8.1 Cylch Gorchwyl

3.4.8.1.1 monitro perfformiad trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor a sicrhau ei annibyniaeth ac yn benodol :
(i) ymgynghori gyda Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â phenodi archwilwyr allanol
(ii) ystyried cynllun archwilio arfaethedig yr archwiliwr allanol
(iii) ystyried Llythyr Blynyddol yr archwiliwr allanol Rheolwr Perthynas
(iv) cymeradwyo ar ran y Cyngor, ddatganiad o nodau ac amcanion y swyddogaeth archwilio mewnol
(v) derbyn y Cynllun Archwilio blynyddol mewn perthynas â dyrannu adnoddau archwilio mewnol yn erbyn y gwahanol gategorïau o waith
(vi) adolygu'r hyn y bu modd ei gyflawni o safbwynt gwaith archwilio mewnol ac allanol o gymharu â'r cynlluniau archwilio perthnasol
(vii) ystyried adroddiad blynyddol a barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a chrynodeb o weithgareddau archwilio mewnol (gwirioneddol ac arfaethedig) a'r lefel o sicrwydd y gall ei roi mewn perthynas â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor
(viii) sicrhau bod gan yr awdurdod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ei gwneud hi'n haws iddo gyflawni ei swyddogaethau ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol. Adolygu effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol o Reolaeth Fewnol ar gyfer ei gynnwys gyda Datganiad Cyfrifon yr awdurdod
(ix) paratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ei weithgareddau am y flwyddyn
(x) sicrhau bod gan y swyddogaeth Archwilio Mewnol ddigon o adnoddau a'i bod yn cael ei lle priodol yn y sefydliad
(xi) bod yn gyfrifol am gymeradwyo'r datganiad cyfrifon gan gynnwys yr isod yn benodol
• ystyried a ddilynwyd y polisïau cyfrifo priodol ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn at sylw'r Cyngor llawn
• bod yn hollol gyfrifol yn yr awdurdod am roi unrhyw gyfarwyddiadau y cyfeirir atynt yng nghymal 5(1) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â'r cofnodiadau cyfrifo a'r systemau rheoli cyfrifon
• ystyried adroddiad yr archwiliwr allanol i'r rheiny sy'n gyfrifol am reoli ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon
• ystyried a chymeradwyo unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i'r datganiad cyfrifon

3.4.8.1.2 Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu polisïau a gweithdrefnau cyfrifo'r Cyngor ac yn adolygu datganiad cyfrifon yr awdurdod cyn ei fabwysiadau gan y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys yn benodol –

- Ystyried a yw polisïau cyfrifo priodol wedi eu dilyn

Comment [K1]: Diweddaru geirfa

Comment [K2]: Diweddaru geirfa

Comment [K3]: Dileu a 3.4.8.12 yn ei ddisodli

Formatted: Font: (Default) ArialMT, 12 pt

Formatted: List Paragraph, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

- I roi unrhyw gyfarwyddiadau sydd eu hangen parthed cofnodiadau cyfrifo a systemau rheoli cyfrifon fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005
- Ystyried adroddiad yr archwiliwr allanol i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu ar fatreion sy'n codi o'r archwiliad cyfrifon

3.4.8.1.32 Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar Bolisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llygredd gan gynnwys –
(i) adolygu effeithiolrwydd y polisi
(ii) derbyn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid ar weithredu'r polisi.

~~3.4.8.1.3 archwilio, o leiaf unwaith y flwyddyn, y cofrestrau a sefydlwyd i gofnodi diddordebau aelodau, diddordebau swyddogion a datganiadau ynghylch lletygarwch a dderbyniwyd.~~

3.4.8.1.4 derbyn adroddiadau gwaith gan yr archwilwyr mewnol ac allanol gan gynnwys crynodebau o adroddiadau Archwilio.

3.4.8.1.5 monitro ymateb y rheolwyr i adroddiadau Rheoli a, lle mae o'r farn bod hynny'n briodol, gwneud argymhellion i'r Pwyllgor perthnasol.

3.4.8.1.6 gall y Pwyllgor adolygu'r materion llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a ~~chydymffurfiaeth~~ rheolaeth fewnol sy'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor. Ynghyd ag adolygu'r dogfennau efallai y bydd y Pwyllgor, er mwyn cyflawni ei rôl archwilio, yn gofyn i unrhyw aelod ~~o'r Pwyllgor Gwaith, Pennaeth y Gwasanaethau Tâl ac/neu unrhyw Brif Swyddog~~neu swyddog o'r awdurdod ddod gerbron y Pwyllgor i egluro materion sydd o fewn eu maes gwaith:
(i) cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda gweithdrefnau'r Cyngor
(ii) cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda safonau llywodraethu corfforaethol sefydlog
(iii) i ba raddau y cafodd risgiau eu hystyried ac i ba raddau yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny;
ac mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny i fod yn bresennol os oes angen.

3.4.8.1.7 bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol a chan yr archwilwyr allanol a mewnol. Yn ychwanegol at hyn gallant, o fewn cyllideb a gymeradwywyd, ymofyn cyngor annibynnol o'r tu allan i'r awdurdod.

3.4.8.1.8 bydd gan archwilwyr allanol/mewnol y Cyngor hawl i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ystyried unrhyw faterion y dylid, yn eu barn nhw, eu dwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.1.9 ymarfer y pwerau a'r cyfrifoldebau ynglyn â llywodraethu a rheoli risg:

**Comment [K4]:** Fel uchod ond gan hepgor y dirprwyo i'r pwyllgor o'r gorchwyl cymeradwyo cyfrifon gan ddisgwyl bod y Cyngor llawn yn gwneud hyn o 2012

**Comment [K5]:** Ddim ei angen bellach – y Pwyllgor Safonau yn gwneud hyn

**Comment [K6]:** Diweddaru'r geirfa i gyd-fynd â'r Mesur Llywodraeth Leol

**Comment [K7]:** Fel sy'n ofynnol dan gymalau 83 (4) a (5) o'r Mesur Llywodraeth Leol

(i) goruchwylio a monitro gofynion cydymffurfiaeth a sicrwydd a bodloni ei hun ynghylch digonolrwydd y strwythurau, prosesau a chyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad
(ii) sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion statudol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch
(iii) adolygu fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor gan gynnwys cytundebau atebolrwydd, Rheolau Gweithdrefn y Cyngor ac ati
(iv) derbyn, adolygu a chymeradwyo asesiadau risg a'r cynlluniau gweithredu a sefydlir o ganlyniad
(v) sefydlu methodoleg ar gyfer asesu risg yn holl swyddogaethau'r Cyngor
(vi) derbyn ac adolygu adroddiadau gan Swyddogion ar gynnydd a wnaed i weithredu ar gynlluniau gweithredu yn codi o'r asesiad risg o weithgareddau'r Cyngor a chytuno ar unrhyw waith gwella
(vii) datblygu a pharhau i adolygu Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor
(viii) sefydlu proffil o risgiau ar draws y Cyngor a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu arnynt
(ix) datblygu ac adolygu'r gofrestr risgiau a chynlluniau cysylltiedig i ymdrin â risgiau a gwneud argymhellion ynghylch dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â'r risgiau a adnabuwyd
(x) codi ymwybyddiaeth o reoli risg yn y Cyngor a sicrhau bod anghenion hyfforddiant ac addysg mewn perthynas â rheoli risg yn cael eu nodi ac yn cael sylw
(xi) sicrhau bod llinellau cyfathrebu/adrodd priodol ac effeithiol yn eu lle yng nghyd-destun Rheoli Risg

3.4.8.1.10 I graffu a faterion Rheoli Trysorlys fel sy'n ofynnal dan y Côd Ymarfer Rheoli Trysorlys a pholisïau Rheoli Trysorlys y Cyngor

**3.4.8.2 Amlder Cyfarfodydd**
3.4.8.2.1
Dylai gyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.
3.4.8.2.2
Rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod os yw'r Awdurdod yn penderfyny hynny neu os yw traean o aelodau'r pwyllgor yn deisyf hynny mewn ysgrifen i'r Cadeirydd

**3.4.8.3 Aelodaeth**
3.4.8.3.1
10 Aelod o'r Cyngor gan sicrhau cydbwysedd gwleidyddol. Ni fydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gymwys i fod yn aelodau o'r Pwyllgor hwn.
3.4.8.3.2
Dau aelod cyfetholedig, heb fod yn alodau o'r Cyngor Sir, wedi ei dewis ar gyfer sgiliau priodol ar gyfer gwaith y Pwyllgor Archwilio, ac a benodir gan yr aeoldau o'r Pwyllgor sy'n gynghorwyr ar gyfer tymor penodll i'w bennu ganddynt wrth wneud y penodiad
3.4.8.3.3
Bydd pleidlais gan pob aelod o'r pwyllgor
3.4.8.3.4

**Comment [K8]:** Sefydlu yn y Cyfansoddiad dyletswydd a drosglwyyddwyd trwy benderfyniad y Cyngor Sir, Mawrth 2010

**Comment [K9]:** Unwaith y flwyddyn sy'n ofynnol dan y Mesur. Mewn gwiridonedd mae'r pwyllgor yn cyfarfod 5 neiu 6 gwaith y flwyddyn. Dim angen newid y dsigwyliad yn y Cyfansoddiad

**Comment [K10]:** Fel sy'n ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol, cymal 84(2)

**Comment [K11]:** I gydymffurfio â'r Mesur ac yn adlewyrchu barn y Pwyllgor ym mis Mawrth

GallBydd GCadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod un ai yn aelod o’r awdurdod neu yn aelod cyfetholedig, prydbynnag y bo’n bosib, yn aelod o’r Wrthblaid ac nid yn aelod o unrhyw un o’r grwpiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith, onibai pan fod pob grwp wedi ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith.

Comment [K12]: Adlewyrchu gofynion y Mesur Llywodraeth Leol, cymalau 83(1) a (2)